Nick Bennett
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

5 Rhagfyr 2016

Annwyl Nick

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 23 Tachwedd i roi tystiolaeth mewn cysylltiad â'ch Adroddiad Blynyddol 2015-16.

Yn dilyn y cyfarfod, cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch ynghylch nifer o faterion na chafwyd cyfle i'w cyrraedd yn ystod y sesiwn, ac i ofyn am ragor o wybodaeth am rai o'r materion a drafodwyd.

Yn eich adroddiad a'ch tystiolaeth, dywedasoch eich bod wedi sefydlu 'seinfyrddau' fel ffordd o ymgysylltu â rhanddeiliaid a sefydliadau am eich gwasanaeth. **Hoffem gael manylion gennych ynghylch sut yr ydych yn disgwyl i ganlyniadau'r seinfyrddau hyn effeithio ar eich gwaith.**

Roedd gennym ddiddordeb i glywed, yn ystod y flwyddyn dan sylw yn yr adroddiad, eich bod wedi adolygu a diwygio eich polisi a'ch gweithdrefn gwyno, ac wedyn wedi penodi adolygydd allanol annibynnol o ran cwynion. **Hoffem gael rhagor o fanylion gennych ar rôl yr adolygydd ac ar y broses o atgyfeirio cwynion ar gyfer eu hadolygu. Byddem hefyd yn hoffi pe gallech amlinellu sut yr ydych yn**

**disgwyl i waith yr adolygydd effeithio ar y ffordd y mae cwynion am eich gwasanaeth yn cael eu trin.**

Nodwn fod nifer y cwynion o ran y Cod Ymddygiad wedi cynyddu 19 y cant ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf, ac, er bod cwynion yn erbyn aelodau o gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol wedi lleihau, bu cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion yn erbyn aelodau o gynghorau cymuned. Nodwn hefyd fod oddeutu traean o'r holl gwynion yn erbyn cynghorau cymuned yn ymwneud â thri chyngor cymuned.

Pan holwyd chi am y cynnydd yn nifer y cwynion yn ymwneud â chynghorau cymuned, awgrymwyd gennych bod "llawer iawn" o'r rhain yn gwynion blinderus, sydd yn peri pryder i ni. Rydym yn arbennig o bryderus ynghylch y goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer eich swyddfa o ymdrin â chwynion blinderus, ac am yr adnoddau sy'n cael eu gwyro, o bosibl, oddi wrth ymchwiliadau mwy difrifol. Dywedasoch wrthym fod gennych bwerau ar gael i fynd i'r afael â'r mater o gwynion blinderus ond, hyd yma, roeddech wedi dewis peidio â'u defnyddio. **Hoffem gael rhagor o fanylion gennych am y pwerau hyn. Byddem hefyd yn hoffi pe baech yn egluro'r amgylchiadau lle y byddech yn ystyried defnyddio'r pwerau hyn.**

Yn ystod y sesiwn, codwyd nifer o faterion yn ymwneud â chwynion yn erbyn cyrff y GIG a'u harferion llywodraethu. Rwyf wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ac at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon i dynnu eu sylw at y materion hyn.

Edrychaf ymlaen at gael ymateb gennych maes o law.

Cofion cynnes

John

John Griffiths AC
Cadeirydd